PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# y tincer

PRIS 75c | Rhif 364 | RHAGFYR 2013






## Zoe yn darlithio



t8




# Llongyfarchiadau




Llongyfarchiadau i'r Arglwydd Elystan-Morgan, Carreg Afon, Dolau am ennill gwobr Cyflawniad Oes yng Ngwobrau Gwleidydd y Flwyddyn 2013 nos Fawrth 10 Rhagfyr yng Nghaerdydd.



Llongyfarchiadau i Mark Leggett, Nantlais, Dolau a Jenna Smith, Abingdon, ar eu priodas yn Eglwys Sant Ffraid, Lakeside, Caerdydd ar 12fed Hydref. Dymuniadau gorau iddynt oddi wrth y ddau deulu a ffrindiau.

# Y Syrcas

Ar S4C ar Ŵyl San Steffan, bydd byd y syrcas yn dod yn fyw mewn ffilm newydd liwgar a thwymgalon (92 munud o hyd) i'r teulu cyfan. Mae ffilm Y Syrcas wedi ei hysbrydoli gan yr hanes lleol bod syrcas wedi ymweld â Thregaron ym 1848. Yn ôl y sôn, bu farw eliffant a chafodd ei gladdu y tu ôl i dafarn leol. Mae'n ffilm am ferch ifanc sy'n cael ei hudo gan y syrcas ac yn dod yn ffrindiau gydag eliffant. Cyfarwyddwr a chynhyrchydd y ffilm ydy Kevin Allen, sy'n enwog am y ffilm eiconig Twin Town (1997). Yn serennu mae Aneirin Hughes fel y gweinidog llym Tomos Ifans.



Llun: S4C




# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD – Iona Bailey**

**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 832980

**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION – Rhodri Morgan**
Maes Mieri, Llandre, ☎ 828 729
rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**

**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201

**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dai Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** - Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** - Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
**Mrs Mair England**
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** - 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

## Rhifyn Ionawr

**Deunydd i law: Ionawr 3  Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 15**

**RHAGFYR 19** Nos Iau Plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 20** Dydd Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig yn Seion, Stryd y Popty am 10.30

**RHAGFYR 20** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau Nadolig

**RHAGFYR 22** Nos Sul Parti Nadolig Patrasa yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch o 5.00-7.00. Mynediad £1 gan gynnwys raffl. Ymweliad gan Siôn Corn - £2 bob plentyn. Gêmau a Disco.

**RHAGFYR 22** Nos Sul Gwasanaeth Carolau Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**RHAGFYR 23** Dydd Llun CIC yn canu carolau. Cyfarfod yn Nhregerddan, Bow Street 2yp i ddechrau.

**RHAGFYR 31** Nos Fawrth (Nos Galan) Gary T. Davies: comedi ac adloniant llafar. Plant 7-9; disco ac adloniant addas 9-1. £10 oedolion; £5 12-15 mlwydd oed; Plant o dan 12 am ddim. Gan gynnwys Bwffe yng Nghlwb Pêl-droed a Chymdeithasol Penrhyn-coch.

**2014**

**IONAWR 7** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl gwyliau'r Nadolig

**IONAWR 15** Nos Fercher Y Parchg Beti Wyn James yn trafod A wnaiff y gwragedd...? Profiad un fenyw yn y weinidogaeth Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 17** Nos Wener Ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un: cip y tu ôl i'r llenni. Ceri Williams, Caerdydd (Dolau gynt) Cymdeithas y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**IONAWR 24** Nos Wener Cwis, Caws a Gwin yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Tachwedd 2013**

**£25** (Rhif 88) Beti Daniel, Glynrheidol, Cwmrheidol
**£15** (Rhif 67) Dewi Hughes, Bodhywel, Bow Street
**£10** (Rhif 230) Llinos Jones, Dolgerddien, Comins-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Tachwedd 20.

Os oes rhai eisiau ymuno â Chyfeillion Y Tincer cysylltwch â Bethan Bebb.
£5 y flwyddyn am rif o Mis Ionawr.


**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.


Ymunwch â Grŵp Facebook Ytincer

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

## Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu – eleni i'r elusen Tros Gynnal Plant.



## Eisteddfodau'r Urdd 2014

**MAWRTH 11** Dydd Mawrth. Rhagbrofion Eisteddfod cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y cylch
**MAWRTH 11** Dydd Mawrth. Eisteddfod Uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig
**MAWRTH 12** Dydd Mercher. Eisteddfod Ddawns Cynradd ac Uwchradd, cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth
**MAWRTH 12** Dydd Mercher. Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais
**MAWRTH 13** Dydd Iau. Eisteddfod Offerynnol Cynradd ac Uwchradd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Pen-glais
**MAWRTH 22** Dydd Sadwrn. Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00
**MAWRTH 24** Nos Lun. Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth am 6.00.
**MAWRTH 26** Bore Mercher. Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 10.30
**MAWRTH 28** Dydd Gwener. Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd. Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

Nos Sul, 1 Rhagfyr, cynhaliwyd cyngerdd Côr ABC yn Eglwys Llanbadarn Fawr. Canwyd *Lux aeterna* gan Morten Lauridsen, ynghyd â detholiad o garolau a chodwyd swm teilwng i'w roi i Apêl Elain. Llongyfarch Gwennan.





## 30 MLYNEDD YN OL

Mrs Pryce Evans, Cadeirydd Pwyllgor Clwb Cymdeithasu a Chwaraeon Capel Bangor, yn cyflwyno gwobryon i'r enillwyr. Yn y llun gwelir Bleddyn Jones, Stuart Hopton, Mrs Pryce Evans, Mrs Gwen Jones a Mr Martin Williams (O'r *Tincer* Rhagfyr 1983)

Annwyl Olygydd,
Rwy'n ceisio dod o hyd i fanylion am feddygon o Gymru a fu ynghlwm â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Os gwyddoch am hanes rhywun, byddwn yn hynod ddiolchgar i glywed oddi wrthych.

Diolch yn fawr iawn
John Jenkins
Uwch Swyddog Materion Cyhoeddus
BMA Cymru
5ed llawr,
2 Pentir Caspian,
Ffordd Caspian,
Bae Caerdydd,
CAERDYDD
CF10 4DQ
Ffôn: 02920 474646 neu 07788 565 216
jjenkins@bma.org.uk

**TREFNIADAU CASGLU SBWRIEL DROS Y NADOLIG**

Bydd sbwriel yn cael ei gasglu fel arfer yng Ngheredigion ar

Ddyddiau Llun a Mawrth, dros y Gwyliau.

Daw y faniau ar ddydd Iau i gasglu bagiau du a gwastraff bwyd y rhai sydd yn arfer cael eu casglu ar ddydd Mercher, dydd Gwener i'r rhai sydd yn arfer cael eu casglu ar ddydd Iau a dydd Sadwrn i'r rhai sydd yn arfer cael eu casglu ar ddydd Gwener. Hyn wythnos y Nadolig a'r Calan. NI FYDD BAGIAU CLIR YN CAEL EU CASGLU O RAGFYR 25 HYD IONAWR 5 Bydd y casgliadau yn dychwelyd i'w trefn arferol ar Ionawr 6ed.

### Ras yr Iaith

Cyhoeddwyd y cynhelir Ras yr Iaith dydd Gwener 20 Mehefin 2014. Bydd y Ras dros ddiwrnod yn unig ac yn mynd trwy'r prif drefi. Mwy o fanylion yn y misoedd nesaf.

### Hen lun - ychwanegiad

Daeth ymateb oddi wrth William Grahan i'r llun o Penrhyn Canol yn nodi iddo sylweddoli erbyn hyn lle oedd y llun – bu ei ewythr William Pierce Jones yn byw yn The Cottage ar y chwith yn y llun. Arferai mam William Graham – Megan Graham (nee Roberts) y Tincer wedi ei yrru iddi yn Lerpwl hyd ei marwolaeth.

### Y Tincer ar dâp

Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
**Gweler hefyd http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**

**Rhagfyr**
22 2.30 Oedfa Nadolig Gweinidog
25 8.00 Oedfa fore'r Nadolig
29 10.30 Oedfa ddiwedd blwyddyn Gweinidog

**Ionawr**
5 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
12 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
19 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
26 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

## Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 8 a 22 Ionawr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Urdd y Gwragedd

Ar nos Lun Rhagfyr 2il daeth Debbie Stone MBE atom i siarad am ei gwaith gyda'r Gwasanaeth Osteoporosis Cenedlaethol yng Ngheredigion. Yr ydym yn ffodus ym Mhenrhyn-coch ei bod hi a'r teulu yn byw yma ac yn barod i rannu ei phrofiadau gyda chymdeithasau lleol.

## Gwin poeth a mins peis

Trefnwyd noson yn Neuadd yr Eglwys ble bu artistiaid lleol yn arddangos eu gwaith gyda stondinau amrywiol a bwydydd Indiaidd  a danteithion ar gyfer y Nadolig yn ogystal a gwin poeth. Roedd aroglau hyfryd yn y neuadd a phawb yn mwynhau naws y Nadolig.

## Plygeinia

Cynhelir plygain Penrhyn-coch y noson y bydd y rhifyn yma o'r Tincer yn ymddangos o'r wasg. Yn ddiweddar ffarweliwyd a un fu yn ffyddlon iawn i blygeiniau Penrhyn-coch a'i ardal – Arwyn Evans, Tŷ Isa ardal Llanfair Caereinion. Daeth a chriw o gantorion ifanc Aelwyd Pen-llys yma sawl blwyddyn ac fe'i gwelwyd yn nifer o blygeiniau Maldwyn – yn canu efo'i dad ac Aelwyd Pen-llys. Er iddo fod yn wael ers tro daeth i blygain y Penrhyn 2012 a chanu gyda'r tad a'r mab Edfryn a Guto James o deulu Foeldryhaeaern. Bu farw Arwyn ac estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu yn eu profedigaeth. Dyma englyn oedd ar daflen yr angladd – diolch i Arwyn Groe am ganiatâd i'w chyhoeddi.

A ffordd o fyw ffridd ei fywyd – mewn bedd,
mae 'na boen dychrynllyd,
ond daeth o'i hydref hefyd
gogie iau yn gaeau ŷd.

**Arwyn Groe**

## Dringo Mynydd Kilimanjaro

Gan y bydd yn ddeng mlynedd ers marwolaeth Mark Horwood, Penrhyn-coch yn 2014 penderfynodd ei wraig Susan, ei ffrind Byron Thomas a'i nith Angharad Lewis wireddu un o'i uchelgeisiau ef, sef dringo Mynydd Kilimanjaro a chodi arian, er cof amdano, ar gyfer Sefydliad Prydeinig y Galon (British Heart Foundation). Mae ganddynt darged o £15,000 a gellir cyfrannu ar dudalen Justgiving ar y we.

## Pasio arholiadau

Llongyfarchiadau i Katy Evans, Bronhaul, am basio' r arholiadau i fod yn sarjant gyda'r heddlu. Pob llwyddiant iddi!

## Dyddiad darlledu

Cafwyd cadarnhad  o ddyddiad darlledu y rhaglen O'r Galon: Fflur Fychan - nos Iau Ionawr 2il am 9.30pm

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mairwen Jones a'r teulu ar farwolaeth modryb Mairwen - Violet Jones - yn 105 yn Llundain ar 28 Tachwedd. Hefyd â chlerc Cyngor Trefeurig - Meinir Jenkins, Llanfarian, ar farwoaleth ei thad yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr angladd ddechrau Rhagfyr.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Frances a Meilyr Howells, Ystum Taf, Caerdydd ar enedigaeth merch fach – Martha Elen – nos Sadwrn 7fed Rhagfyr, chwaer fach i Cian ac wyres i Glenys a William Howells, Rhyd-y-gof. Fe'i ganwyd ar ddiwrnod pen blwydd Cian yn ddwy oed.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â theulu y ddiweddar Violet Jones, Bow Street gynt a fu farw yn ddiweddar wedi cyrraedd yr oedran o 105.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau y 14eg o Dachwedd fe groesawyd ein Llywydd bawb i'r cyfarfod, yna fe aed ymlaen i drafod y busnes arferol o fynd trwy yr ohebiaeth a ddaeth i law. Ar ôl hyn croesawodd ein Llywydd Sue Hughes, ein gŵr gwadd am y noson, sef Glan Davies, gŵr a oedd yn adnabyddus i bawb ohonom. Fe gawsom ganddo holl hanes ei



Ar 27 Tachwedd cynhaliwyd cinio yn Nhynllidiart, Capel Bangor, i ddiolch i Mair Evans, Glan Ceulan, a ymddeolodd yn ddiweddar fel clerc i lywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch. Bu yn mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr yr ardal ers canol yr 1980au. Daeth llywodraethwyr a chyn-lywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch ynghyd i ddiolch ac anrhegu.

waith a'i gydweithwyr sydd yn ymwneud â Chymdeithas Brydeinig y Galon yng Ngheredigion a thros y wlad. Fe ddywedodd wrthym sut i drin rhywun a fyddai yn cael trawiad ar y galon, a phryd a pham y defnyddir y 'defibrillator'. A sut allem ni helpu ein hunain i osgoi cael trawiad, drwy fwyta yn gall, cadw'n heini ac yn y blaen. Roedd rhai pethau a ddywedodd yn ddigon i'n syfrdanu ac yn agoriad llygad i bawb. Cafwyd hanes am y gwaith da maent yn wneud i god arian yma yng Ngheredigion gogyfer a chael offer sydd yn addas at drin y galon. Fe wnaeth i ni sylweddoli o beth sydd yn mynd ymlaen gyda sefydliad Cymdeithas y Galon ac apeliodd am gymorth pawb er mwyn iddynt gael cario ymlaen efo'r gwaith da maent yn ei wneud. Diolchwyd yn swyddogol i Glan gan Judith Morris. Cafwyd cwpanaid a sgwrs a thynnu'r raffl cyn mynd tua thre. Noson wych arall.

### Ffordd ar gau

Bydd yr heol rhwng Fferm Pen-cwm a gwaelod y rhiw i Benrhyn-coch ar gau am chwech wythnos o 13 Ionawr ymlaen.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Connie Evans, Gwawrfryn, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais ac i Cliff Evans, Beech House sydd adref ar ôl ei driniaeth.

Annwyl Olygydd

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd Cyngor Cymuned Trefeurig yn ystyried ceisiadau am nawdd i fudiadau a chymdeithasau lleol yn y flwyddyn newydd. I wneud cais rhaid amgau llythyr yn nodi beth yn union yw'r gweithgaredd neu'r gost y gofynnir am grant ar ei gyfer a hefyd dylid amgáu copi o gyfrifon blynyddol diweddaraf y gymdeithas neu fudiad. Dylai'r ceisiadau gyrraedd Clerc y Cyngor erbyn **dydd Gwener, 17 Ionawr 2014**, a'u hanfon i'r cyfeiriad canlynol: Meinir Jenkins, Dôl Werdd, Lôn Rhyd-y-gwin, Llanfarian, Aberystwyth SY23 4DD, neu drwy e-bost i meinirjenks@gmail.com

Yn gywir
Meinir Jenkins

# Diwrnod agored yn Llanerch Clwydau, Bont-goch



Cyril Lewis, Cadeirydd y Pum Sir; Huw Davies, Llety Ifan Hen, Cadeirydd Ceredigion; Alan James, Penbanc a Gwilym Jenkins, Llywydd Ceredigion.

Daeth bugeiliad 'Defaid Mynydd Cymreig y Pum Sir' (Arfon, Ceredigion, Dinbych, Meirionydd a Sir Drefaldwyn), i ardal Bont-goch ar ddydd Sadwrn olaf mis Medi. Trefnwyd y diwrnod gan Gymdeithas Defaid Mynydd Sir Ceredigion a Moss Jones, Ysgrifennydd Cymdeithas y Pum Sir. Mae'n diolch yn fawr i deulu Pen-banc, Penrhyn-coch, sef Alan a Shân James a'r teulu i gyd am dderbyn y gwahoddiad i gynnal y diwrnod agored.

Roedd tad Alan yn un o aelodau cyntaf y Gymdeithas, pan y dechreuwyd hi nôl yn y chwedegau. Croesawyd pawb i Llannerch gan y cadeirydd Huw Davies, Llety Ifan Hen, yna cyflwynodd y Llywydd, Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Alan Pen-banc. Rhoddodd hanes y ddiadell, ac eglurwyd y dull o ffermio yn Llanerch. Uchafbwynt y dydd i bawb oedd cael gweld y ddiadell a chyfle i fynd ar daith o gwmpas y fferm. Gwelwyd golygfeydd anhygoel yr ardal a Bae Ceredigion o ben y bryniau.

Roedd cynnal y diwrnod yn golygu llawr iawn o waith i'r teulu i baratoi, nid yn unig i'r dynion, gan fod Shân a'r merched wedi paratoi te bendigedig i bawb. Daeth dros 100 o bobl i'r diwrnod agored, ac ni siomwyd neb. Roedd y defaid yn werth eu gweld, a llawer iawn yn canmol yr hyn a welwyd am amser wedyn.

Cafwyd arddangosfa gan Gymdeithas Cŵn Defaid Cymreig yn ystod y prynhawn hefyd, lle gwelwyd cŵn wrth eu gwaith yn trafod helfa o 800 o ddefaid.

# Canlyniadau Pêl-droed

**Tim 1af Penrhyn-coch**

| | | |
|---|---|---|
| Tachwedd 16eg | Penrhyn-coch 6 | Fflint 1 |
| Tachwedd 23ain | Llandudno 4 | Penrhyn-coch 1 |
| Tachwedd 30ain | Penrhyn-coch 0 | Bwcle 2 |
| Rhagfyr 7fed | Cegidfa (Guilsfield) 1 | Penrhyn-coch 0 |

**Eilyddion**

| | | |
|---|---|---|
| Tachwedd 16eg | Y Borth 2 | Penrhyn-coch 1 |
| Tachwedd 23ain | Penparcau 5 | Penrhyn-coch 3 |
| Rhagfyr 7fed | Penrhyn-coch 3 | Eilyddion Waterloo 2 |

**3ydd Tim**

| | | |
|---|---|---|
| Tachwedd 23ain | Eilyddion Llanilar 1 | Penrhyn-coch 1 |
| Tachwedd 30ain | Eilyddion Penparcau 3 | Penrhyn-coch 1 |

**Menywod**
**Cwpan Canolbarth Cymru**

| | | |
|---|---|---|
| | Crannog 4 | Penrhyn-coch 1 |
| Rhagfyr 1af | Prifysgol Aberystwyth 5 | Penrhyn-coch 0 |
| Rhagfyr 8fed | Penrhyn-coch 6 | Llanbedr Pont Steffan 1 |

# Y Gwyll

## Profiad ecstra

Mewn siop yn Aberystwyth gwelais boster yn sôn fod angen ccstras mewn cyfres a oedd yn cael ei ffilmio yn ardal Aberystwyth. Anfonais e-bost i'r cyfeiriad. Roeddwn wedi bod yn ecstra yn y ffilm *Undertakers Paradise* a ffilmiwyd yn Aberystwyth yn 1999 - rhan fel cludwr mewn angladd.

Clywais fod y ffilmio wedai dechrau yn yr ardal ond ar ôl rhai wythnosau anghofiais bopeth amdano.Yna galwad ffôn gan y trefnydd, cwrdd mewn tŷ ffarm ar y ffordd i Bontarfynach, y rôl cario corff o garej i fan, a dod a dillad priodol gyda fi sef dillad angladd siwt ddu, tei ddu a crys gwyn, cot ddu.

Cyrraedd y fferm a cwrdd â'r ecstras eraill,adnabod llawer ohonynt. Ar ôl yfed llawer o goffi, amser i fynd i wardrobe; gwneud yn siwr fod y dillad yn iawn, a ffwrdd a fi i garej fach ger Trisant. Erbyn hyn roedd yn amser cinio a bwyd poeth yn dod i bawb, yr actorion yn cymysgu gyda ni.

Y cyfarwyddwr yn rhoi cyfarwyddiadau o beth i wneud. Yn syml, symud corff o'r garej i'r fan a gyrru i ffwrdd. Dim problem - rhwydd iawn. Ar ôl sawl ymarfer y camerau yn rhedeg a'r ffilmio yn dechrau.

Roeddwn wedi symud y corff i'r fan, gyrru lawr y lôn ugeiniau o weithiau nes bod y cyfarwyddwr yn hapus. Y ffilmio wedi gorffen, yr olygfa yn iawn. Diwrnod blinedig - yn enwedig yr aros o amgylch.

Wedyn wrth edrych ar Y Gwyll, adnabod y garej a sylweddoli fod bron i ddiwrnod o ffilmio ond eiliadau yn unig ar y teledu.

Mae pawb rwyf yn adnabod sydd wedi gwylio y rhaglen yn ei hoffi yn fawr iawn - yr ardal yn cynnwys ardal y Tincer wedi ei weld ar ei orau, a chyhoeddusrwydd arbennig o dda gyda golygfeydd hardd iawn.

Newyddion da i bawb, yw y bydd ail gyfres cyn hir.

**Gwynant Phillips**



## Ymateb un o drigolion y Borth

Fel cymaint o drigolion y Borth, ro'n i'n edrych mla'n yn fawr at weld 'Y Gwyll'. Roedd y tîm cynhyrchu wedi bod yn byw yn ein plith am fisoedd lawer, ac roedd pawb wedi arfer â gweld camerâu a goleuadau a cheir 'esgus' yr heddlu o gwmpas y pentre. Roedd llawer iawn o fyfyrwyr Adran Theatr Ffilm a Theledu wedi bod yn helpu gyda'r ffilmio a chael profiad hynod werthfawr o weithio gyda chyfarwyddwyr a thechnegwyr profiadol dros ben.

Felly, pan ddechreuodd y bennod gyntaf, ro'n i'n dotio ar weld y Volvo yn dod dros y bryn i ddatgelu'r olygfa anhygoel ry'n ni'n ei weld mor aml-y pentre, y bae, y Figyn, Pen Llŷn a'r Wyddfa'n pipo dros y mynyddoedd yn y pellter (ar ddiwrnod clir), Ond doedd Amgueddfa'r Orsaf yn edrych yn wych? Y gors yn edrych yn wyllt a diddorol? A'r môr yn gefnlen dramatic i rhoi dyfnder i lawer i siot? Glywes i sawl un yn dweud fod y ddaearyddiaeth ddim 'cweit yn reit', gyda'r Volvo neu geir yr heddlu yn dod o'r cyfeiriad anghywir i'r Borth neu'n cymryd hewl annisgwyl i'r fan a'r fan. Ond doedd dim ots!

Gwelais ambell i drigolyn o'n i'n ei nabod hefyd, Pete o Erddi Ynys-las yn hofran tu fas i rhyw ffermdy ddiarffordd, a Pete a Dave Samson yn esgus bod yn bobl perchen ranc tacsis yn yr hen gapel ar y stryd fawr, heb sôn am Les Edwards oedd yn bysgotwr credadwy dros ben! Pe bawn i'n gorfod penderfynu ar 'Osgars y Borth', asynod Mr. Doyle fydde ar ben fy rhestr - yr anifeiliaid annwyl sy'n byw ym mhob tywydd ar y tir rhwng yr eglwys ar orsaf - creaduriaid oedd yn hollol anymwybodol o'r ddrama fawr o'u hamgylch.

Cafwyd newyddion da'n ddiweddar- fod yna gyfres arall i fod. Bydd yn dda gweld pawb 'to. Ond mewn difri, roedd yr actio'n ofnadwy o dda, gyda Richard Harrington, sydd wastod yn hoelio sylw ar y sgrîn, a'r cast cryf o'i amgylch yn gredadwy iawn. Hoffais Nia Roberts yn y rhaglen olaf yn fawr, ond fy hoff actor oedd D.C. Lloyd Ellis oedd yn portreadu y ditectif, tawel, cydwybodol oedd yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser wrth ei ddesg, ar y ffôn, nes dod o hyd i'r un ffaith allweddol oedd yn newid pethau; byddai'n dda gweld ei gymeriad e'n cael ei ddatblygu yn yr ail gyfres.

Bydd y gyfres nesa'n siwr o ddatgelu llawer o ffeithiau eraill am y cymeriadau canolog, ac egluro ychydig ar sefyllfaoedd personol cymeriadau unigol, sef pam fod D.C.I. Mathias yn cario llun o'r ddwy ferch fach ac yn byw mewn carafan ddigroeso? Pam hefyd fod D.C. Mared Rhys â pherthynas anodd gyda'i merch? I enwi ond dau. Edrych mla'n wir!

**Elin Hefin un o drigolion y Borth**

## EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH

### 4-5 EBRILL 2014

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw Osian M. Jones, Nercwys, a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd (7 Tan-y-berth, Penrhyn-coch, Ceredigion, SY23 3XH) neu e-bost i'r Is-ysgrifennydd (rhoshelyg@btinternet.com) cyn 17 Mawrth.

### CYFANSODDI

1. **Cystadleuaeth y Gadair**: Cystadleuaeth y Gadair – Cerdd hyd at 50 llinell ar y testun 'Y Goedwig' Rhoddir y Gadair a'r wobr eleni gan Elsie a Morris Morgan, Y Bwthyn a £50
2. **Telyneg**: "Egin" - £10
3 **Englyn Digri**: "Pry copyn" - £10
4. **Stori fer**: "Ar goll": - £10
5. **Brawddeg o'r gair**: 'Gwanwyn' - £10
6. **Soned**: "Sychder" - £10
7. **Limrig**: Aeth William i weled y twrne
8. Erthygl yn addas i gylchgrawn amaethyddol - 1. £10 2. £5
9. Adolygiad: Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd ers Ionawr 2013 - £10

**Tlws Yr Ifanc**: Dan 21 oed
Erthygl gylchgrawn neu bapur - Tlws a £25

# llun y mis

**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street. Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Aberdyfi o Ynys-las - adlewyrchiadau yn yr afon.

## Y BORTH

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth

Treuliwyd noson ddifyr iawn yn Neuadd y Borth nos Fercher, 11 Rhagfyr pan ddaeth Ieuan Ellis o'r pentref atom i ddangos hen luniau o'r Borth.

Diddorol tu hwnt oedd edrych ar sut mae'r pentref wedi tyfu ers y dyddiau cynnar ac mae Ieuan i'w ganmol yn fawr am roi yr arddangosfa yma at ei gilydd.

Diolchwyd iddo gan ein Llywydd, Cecilia Charles, a pharatowyd paned a danteithion bach y Nadolig gan Gwenda Edwards ac Elen Evans.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 8 Ionawr, 2014.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Richard Wynn Cowell, Bethan ac Owain, Bodnant, a'u teuluoedd ar farwolaeth Jean Wynn Cowell ar Tachwedd 8fed.

## DÔL-Y-BONT

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Phill a Sian Elin, Bryndderwen, ar farwolaeth mam Phill yn ddiweddar.

## GOGINAN

### Dymuniadau gorau

Pen blwydd hapus hwyr i Colin Baxter, Oakdale, a ddathlodd ei ben blwydd yn saithdeg yn ddiweddar.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Sian Donnelly a'r teulu, Tŷ Capel, ar farwolaeth ei thad Merfyn Davies, Ffordd Min-y-bryn, Aberystwyth.



John Howell yn croesawu y cwsmeriaid i'r Ffair Grefftau lwyddiannus a gynhaliwyd yn yr hen garej ar Dachwedd 17 dan ofal Cymdeithas Goginan.

## Colofn Enwau Lleol – Ruel (neu Riwel)



Mae trafod wedi bod ar ystyr yr enw Ruel (neu Riwel) sy'n enw ar ddwy fferm yn Llandre. Darllenais esboniad Dr B. G. Charles yn ei waith mawr *The Place-names of Pembrokeshire* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1992) ar ystyr enw'r cae *Ruelwall* yng nghantref Arberth, a'r awgrym y gallasai'r rhan gyntaf fod yn deillio o'r gair Ffrangeg Normanaidd *ruelle* 'ffordd fechan, llwybr' (tud. 487). Gan ystyried hefyd fod Walter d'Espec, yr arglwydd Normanaidd, wedi codi Castell Gwallter, lled rhyw ddau gae o ffermydd y Ruel, mae'r esboniad yn gwneud synnwyr. Rai blynyddoedd yn ôl buom ar wyliau ar Ynys Jersey, ble mae'r iaith Ffrangeg Normanaidd yn cael ei defnyddio, a gwelsom enghreifftiau o'r gair yn cael ei ddefnyddio.






Dyna yw sail yr englyn sydd yn rhan o Lwybr Llên Llandre:

**GWALLTER**

I'n gelltydd y daeth Gwallter, – draw ar hyd
Ei *ruelle*'n llawn hyder.
Un echdoe oedd ei wychder,
Ond mae'i fyd o hyd yn her.

**Huw Ceiriog Jones**

**Angharad Fychan**
**Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru**
**www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org**

# Myfyrdod y Nadolig

Dychmygwch, dim ond am eiliad yr olygfa hon. Haen denau o eira ar lawr, anferth o goeden Nadolig ar y sgwâr, a llu o garolwyr ymhob man, eu lleisiau swynol yn cario lawr y strydoedd. Mae ein cardiau Nadolig yn argyhoeddi mai dyma sut y dylai'r Nadolig fod gyda charolwyr Fictorianaidd yn cylchu coeden fawr bob flwyddyn. Darlun tebyg yw darlun Nadolig clasurol ym meddyliau y rhan fwyaf o bobl yn enwedig y genhedlaeth hŷn. Erbyn heddiw mae'n ddarlun sydd yn anodd ei chael mewn byd lle mae'r dechnoleg yn datblygu yn gynt a chynt. Beth mae'r Nadolig yn edrych fel erbyn hyn? Llinellau hir o siopwyr yn ceisio'r iPad mwyaf diweddar, siopau coffi yn cynnig bob mathau o ddiodydd y tymor mewn cwpanau cardfwrdd lliwgar a siwmperi gyda cheirw arnynt. Mae'r siopau bwyd yn cynnig bob math o brydau hawdd i hwyluso'r wledd fawr ddiwrnod Nadolig a siopau dillad yn cynnig y dillad bydd yn eich gwneud y person mwyaf deniadol yn eich parti Nadolig gwaith. Ond ynghanol hyn i gyd, onid oes mwy i'r Nadolig mewn gwirionedd? Wrth i ni gyd fynd o siop i siop yn ceisio cael hyd i'r anrheg Nadolig perffaith a ydym ni yn aros i feddwl pam yr holl ddathlu? Wrth eistedd pnawn Nadolig wedi stwffio a thwrci a phwdin melys a ydym ni yn cofio am y babi bach hwnnw a gafodd ei eni mewn stabl gyda doethion a bugeiliaid yn ymwelwyr cyntaf iddo?

Beth dybiwch a wnâi Mair a dderbyniodd Aur, Thus a Myrr fel anrhegion i'w baban o'r holl declynnau sydd ar gael heddiw? Felly wrth i ni ganu carolau, siopau a gwledda y flwyddyn yma gadewch i ni gofio gwir ystyr y Nadolig, a chofio'r baban bach hwnnw a anwyd a'i roi mewn preseb. Ac wrth i ni ddathlu'r Nadolig gan gofio ei wir ystyr gadwch i ni hefyd gofio'r rhai sydd yn treulio'r Nadolig hwn mewn galar a phoen, y rhai sydd yn llai ffodus ac yn unig. Ynghanol yr holl ddathlu gadewch i ni fod yn gymorth i'r rhai hynny sydd yn treulio'r Nadolig hwn mewn tywyllwch i weld y goleuni. Gadewch i ni gofio neges yr angylion i'r bugeiliaid y Nadolig cyntaf un, y neges arbennig o lawenydd mawr.

Yna dywedodd yr angel wrthynt, "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.

Nadolig llawen, pob bendith yn ystod yr ŵyl, a blwyddyn newydd dda.

Sioned Angharad

# TREFEURIG

## Hwb i Brifysgolion y De ar Drothwy Tymor Newydd

Mae'r ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ar draws de Cymru wedi derbyn hwb sylweddol yn sgîl buddsoddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Penodwyd naw o ddarlithwyr trwy Gynllun Staffio Academaidd y Coleg i weithio ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd.



Un ohonynt yw Zoe Morris Williams, gynt o Drefeurig. Ganwyd Zoe yn Peterborough ond symudodd i'r ardal hon yn dair mlwydd oed a mynychu Ysgolion Trefeurig a Phenweddig. Dechreuodd astudio meddygaeth yn Imperial College, Llundain ym 1998 a graddio yn 2005 gydag anrhydedd; cafodd wobr y deon am berfformiad uchel dros yr arholiadau terfynol. Fe gwblhaodd hefyd BSc. Ers graddio bu'n gweithio fel meddyg yn Ne Cymru cyn hyfforddi fel meddyg teulu yn dilyn llwybr academaidd. Cwblhaodd yr hyfforddiant ym mis Mawrth 2012 ac ers hynny mae'n gweithio fel meddyg teulu ym Mhontypridd ac fel darlithydd clinigol yn yr Ysgol Feddygol, Prifysgol Caerdydd. Mae hefyd wedi dysgu meddygon a myfyrwyr meddygol ac wedi cwblhau PGDipMedEd a chyrsiau mentora. Mae ganddi ddiddordeb mewn addysg feddygol/iechyd a mentora ac mae'n aelod o Grŵp Strategaeth Feddygol Deoniaeth Cymru. Mae'n aelod gweithgar o'r Gymdeithas Feddygol Gymraeg.

Mewn erthygl yn y cylchgrawn *Golwg* yn ddiweddar soniwyd ei bod yn angerddol dros Gymreigio'r gofal i gleifion Cymraeg eu hiaith. "Yr her fydd denu darpar nyrsys a therapyddion at y ddarpariaeth Gymraeg", meddai.

Mae Zoe yn briod â'r cerddor Tomos Williams (ddaw o Aberystwyth yn wreiddiol), yn byw yng Nghaerdydd ac mae ganddynt ddau o blant – Aneirin sydd yn dair a Hana sy'n ddeg mis. Dymuniadau gorau iddi wrth ei gwaith.

## Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Kelly Waters, Pen-bont Rhydybeddau, am raddio yn B.Sc., (Bywydeg a Gwymoneg – Biology & Phycology) gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Caer, oddi wrth y teulu.



# Cartref Tregerddan

Mae lle ar gyfer gofalwyr wrth gefn yng Nghartref Tregerddan Bow Street. Mae hwn yn gyfle am yrfa llawn sialens ond llawn boddhad hefyd.
Rhoddir hyfforddiant, cefnogaeth a mentora i'r person cywir.

Cartref i'r henoed yw Tregerddan gyda lle i 28 o breswylwyr. Fel staff, ymdrechwn i wneud y cartref yn le hapus a hwylus i'n preswylwyr felly rydym yn chwilio am bersonau sy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd creu amgylchfyd cartrefol a chadarnhaol.

Mae'r oriau gwaith yn hyblyg ac ar delerau 'fel mae'r galw". Ac o bosib y gellir cynnig safle llawn amser parhaol yn y dyfodol.

Os oes gyda chi ddiddordeb yna ffoniwch Elaine (Rheolwraig), Kim (dirprwy) neu Jane (uwch ofalwraig) ar 01970 828657 am sgwrs anffurfiol. Croesewir pob ymholiad.

# Colofn Mrs Jones

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Nelson Mandela mor agos i'r Nadolig. Ychydig iawn o ddynion gwir fawr sydd yn y byd ond roedd Mandela yn un ohonynt.

Fe'm maged i mewn teulu lle na ystyrid lliw croen neb, yn wir, yr oedd gennyf ewythr du ei groen ac yr oeddem ni blant wedi arfer cymaint ag ef fel na feddyliem amdano ond fel Yncl Sturdee, gŵr chwaer fy nhad. Adeg angladd fy nhad, fe achosodd hyn beth anifyrrwch i mi oherwydd pan ofynnodd un o ferched y te pwy oedd y teulu du a beth oedden nhw yn ei wneud yn yr angladd, f'ymateb i oedd gofyn pa deulu du. Gallwn ei gweld yn meddwl fod gofid am fy nhad wedi troi f'ymennydd cyn i mi sylweddoli am pwy yr oedd hi yn sôn a dweud wrthi. Nid bod hi wedi fy nghredu i wedyn, 'ydech chi'n bownd o fod yn misio,' oedd yr ateb a gefais sef Dyffryn Dyfi -ese am ddweud celwydd.

Bid a fo am hynny, yr oedd fy rhieni yn gadarn yn erbyn apartheid hyd yn oed pan nad oedd hynny yn ffasiynol. Gwelai'r ddau y frwydr yn erbyn apartheid fel parhad o'r frwydr yn erbyn caethwasiaeth - a chyda llaw, tybed a yw'r rhai sydd yn gwrthwynebu hiliaeth Uncle Tom's Cabin erioed wedi meddwl ei ddylanwad pellgyrhaeddol yn dysgu pobl wynion mai pobl yw pobl beth bynnag yw lliw eu crwyn. A oes brawddeg dristach nag ymateb Topsy i'r cwestiwn pwy oedd ei rhieni? 'I spec I jist growed.' gan grynhoi mewn pum gair holl erchylltra system a werthai deuluoedd a'u gwahanu fel y gwahanwn ni gŵn bach.

Yr oedd gan y frwydr yn erbyn apartheid ddau sant ym marn fy nhad, Mandela a Desmond Tutu.Edmygai eu dyfalbarhad a'u gweledigaeth ac, uwchlaw popeth, edmygai eu pasiffistiaeth.Yr oedd natur ychydig yn fwy byrbwyll yng nghenedlaetholdeb fy mam, effaith cyfeillgarwch ei theulu ac R.O.F.Wynne, Garthewin, mi wn, a phan ymddangosai hi yn rhy gynnes ei chefnogaeth i Iwerddon, buan iawn y byddai fy nhad yn dweud wrthi nad oedd cenedlaetholdeb a fagai gasineb ac a feithrinai wahaniaeth dda i ddim. Moesoldeb cariad at hunaniaeth oedd gweld dynoliaeth pawb a chreu sefyllfa lle y gwelai'r gormeswyr eu bai a'i newid ym marn fy nhad, ni welai ef fod creu neu adfer cenedl trwy drais yn ffordd effeithiol o greu dyfodol o heddwch parhaol i neb. Dyfal donc a dyr y garreg, wrth gwrs, a daeth apartheid i ben a rhyddhawyd Mandela. Fe wnaeth Mandela fwy yn ei gell yn symbol llonydd o anghyfiawnder na aml i arweinydd a gymerodd wn yn erbyn ei feistri ac enghraifft arall o'r un peth, wrth reswm, yw Gandhi.

Ond gallaf eich gweld yn gofyn a effeithiodd Mandela a Gandhi ar Gymru? Fe gafodd y ddau ddylanwad pellgyrhaeddol iawn. Fe fyddai Saunders Lewis wedi arwain Cymru ar hyd lwybroedd yr IRA ond fe fu dylanwad y ddau heddychwr yn gryfach. A diolch am hynny.

A chyda law, ymagweddai'r Saeson a'r Cymry Cymraeg yn hollol wahanol at Gandhi ac at Mandela. Crewyr trwbl i'w hofni a'u herlid oeddynt i'r Saeson ond, dan ddylanwad y cenhadon Cymraeg eu hiaith a wyddai wirionedd sefyllfa India ac a soniai amdani, dewrder a chywirdeb Gandhi welwch chi. A than ddylanwad hyn, fe gafodd Mandela groeso gennym, hefyd.Nofel ddoniolaf Islwyn Ffowc Elis yw *Tabyrddau'r Babongo*, anturiaethau gŵr diglem o'r enw Ifans yn Affrica. Trefedigaethwr yw Ifans ac a yno yn llawn syniadau am y blacs cyn dod i'w hadnabod a chyn gwrando ar eu harweinydd cenedlaethol, Jarmodo, a sylweddoli mai â'r blacs dan bawen y Sais a'i chwip y dylai ei gydymdeimlad ef fod. Y mae Ifans yn troi yn genedlaetholwr wrth ddysgu ystyried dynoliaeth grŵp arall. A dyna, mi dybiaf, wers fawr Mandela, gall cenedlaetholdeb ein huno ni i gyd os canolbwyntiwn ni ar yr anghenion a'r dyheadau hynny sydd yn gyffredin i ni fel pobl a pharchu ein gwhahaniaethau yr un pryd.

Fe fu farw cyn y Nadolig, cyn i ninnau groesawu baban bach sydd yn Waredwr Byd, symbol arall o fawredd a chryfder yr heddychwr....boed i ni i gyd fyw yn deilwng o'i gariad Ef a byw i anrhydeddu y cywir a'r cyfiawn lle bynnag y mae.

A Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda i bawb ohonoch.

# Llyfrau

**I'r Gad - Hanner Canrif o Brotestio dros y Gymraeg :** golygydd - Arwel Vittle Y Lolfa clawr caled 200t £29.95 clawr meddal 228t £19.95

Erbyn darlledu darlith Tynged yr Iaith yn Chwefror 1962 roedd ieuenctid y cyfnod, a methiant protest Tryweryn yn adleisio yn eu clustiau, yn effro i annhegwch. O ganlyniad esgorodd geiriau Saunders Lewis ar gyfnod o hanner canrif o brotestio gyda'r ifanc ar flaen y gad.

Adrodd hanes yr ymgyrchu uniongyrchol hwnnw drwy luniau y mae'r gyfrol hon. Mae'r protestio'n digwydd yn enw nifer o fudiadau - Cymdeithas yr Iaith, Adfer, Cylch yr Iaith, Cymuned. Tynnwyd y lluniau gan rai o brif ffotograffwyr Cymru'r cyfnod e.e. Geoff Charles, Raymond Daniel, Marian Delyth. Mae'r lluniau o brotestiadau Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor yn anghyffredin gan mai awdurdodau'r coleg a drefnodd eu tynnu er mwyn cael tystiolaeth yn erbyn myfyrwyr i'w diarddel o'r coleg.

Rhennir y gyfrol ar sail y gwahanol ymgyrchoedd. Ym mhob rhan ceir sylwebaeth gan y golygydd ac ysgrif fer gan rywun oedd yng nghanol y berw e.e. Aled Gwyn, Robat Gruffudd, Iwan Edgar, Angharad Tomos a Marian Delyth.

Trueni i'r golygydd gael ei demtio i gynnwys y llun cyntaf yn y llyfr gyda'r pennawd Pont Trefechan gan nad llun o brotest nac o Bont Trefechan ydyw. (Fe'i tynnwyd yn Nolgellau dw i'n tybio.) Ond hawdd nabod lleoliadau'r gweithredu fel arfer a bydd llawer o'r wynebau'n gyfarwydd i ddarllenwyr *y Tincer* gan fod rhai yn hanu o'r ardal ac eraill wedi symud yma i fyw.

Yn ogystal â rhoi'r hanner canrif ar gof a chadw ni all y gyfrol ond ysgogi darllenwyr *y Tincer* i ddwys ystyried nid yn unig beth fyddai eu tynged nhw, eu plant a'u hiaith heb y degawdau hyn o ymgyrchu ond hefyd beth i'w wneud yn yr hanner canrif nesaf i adeiladu ar yr hawliau a enillwyd. Oherwydd er gwaethaf Deddf a Mesur deil sefyllfa'r iaith yn fregus.

Eiry Jones

## Hanes Ysgol Syr John Rhys

**Cyhoeddwyd llyfr i ddathlu pen blwydd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd, yn 60. Mae ar werth ac ar gael yn Gymraeg a Saesneg am £7.50 o Garej Rheidol, Ponterwyd, Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch, Y Caban ym Mhontarfynach, a siopau Inc, Siop y Pethe a siop y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth neu oddi wrth Priscilla Mason Jones. Mae ar gael hefyd DVD o'r penwythnos dathlu 50 yn 2003 sydd yn cynnwys yr ocsiwn, seremoni a'r Gymanfa Ganu arno. Gellir prynu y llyfr a'r DVD am £10.**

# BOW STREET

**Oedfaon y Garn 10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**

**Rhagfyr**
22 Lyndon Lloyd Bugail
29 Andras Iago

**Ionawr**
5 Beti Griffiths I'w drefnu
12 Elwyn Pryse
19 Bugail
26 Terry Edwards

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar - Violet Jones – fu farw yn 105 yn Llundain ar 28 Tachwedd.

### Cymdeithas Chwiorydd Capel y Garn

Ar fore Sadwrn, Tachwedd 30ain, cynhaliwyd bore Paned a Chroeso yn Festri'r Garn i dderbyn rhoddion o fwyd at Fanc Bwyd Stordy'r Jiwbili, ac i dderbyn cyfraniadau ariannol i'w rhannu'n gyfartal rhwng y Banc Bwyd a Chronfa Argyfwng y Philipinau. Dechreuwyd y gweithgareddau gyda'r Gweinidog yn torri'r Gacen Adfent i'w dosbarthu rhwng pawb oedd yn bresennol yn symbol o ysbryd rhoi a rhannu y Nadolig. Diolchwyd yn gynnes iawn i Gartref Tregerddan am roi'r gacen i ni. Yn ôl ei arfer bellach roedd Iestyn Hughes wedi darparu pos lluniau heriol, ac roedd nifer fawr o wobrau wedi eu rhoi ar gyfer y raffl. Cafwyd bore hwylus a chodwyd symiau anrhydeddus at y ddwy elusen.

Brynhawn Mercher, Rhagfyr 4ydd, daeth Mrs Mair Benjamin o Dregaron atom, yng nghwmni ei merch Rhian a'i hwyres Besi, ac fe dreuliwyd orig ddifyr dros ben yn gwneud cardiau Nadolig o'r deunyddiau oedd wedi eu paratoi ar ein cyfer.

Llwyddodd y mwyaf anneheuig i gynhyrchu carden i fod yn falch ohoni. Gwragedd y Dolau oedd yn gyfrifol am y te, Margaret Rees arweiniodd y defosiwn gyda Kathleen Lewis wrth yr organ.



**Mwynhau paned yn y festri**

### Gor-wyres arall

Llongyfarchiadau i Mr Llywelyn Mason, Tregerddan, ar enedigaeth gor-wyres fach arall. Ganwyd Sienna ar y 15fed o Dachwedd i Kelly (Mason) a Mike yng Nghaerdydd. Wyres gyntaf i Colin ac Edith Mason, Goginan.

### Cartref Tregerddan

Mae lle ar gyfer gofalwyr wrth gefn yng Nghartref  Tregerddan Bow Street. Mae hwn yn gyfle am yrfa llawn sialens ond llawn boddhad hefyd. Rhoddir hyfforddiant, cefnogaeth a mentora i'r person cywir.

Cartref i'r henoed yw Tregerddan gyda lle i 28 o breswylwyr. Fel staff, ymdrechwn i wneud y cartref yn le hapus a hwylus i'n preswylwyr felly rydym yn chwilio am bersonau sy'n gwerthfawrogi pwysigrwydd creu amgylchfyd cartrefol a chadarnhaol.

Mae'r oriau gwaith yn hyblyg ac ar delerau 'fel mae'r galw". Ac o bosib y gellir cynnig safle llawn amser parhaol yn y dyfodol.

Os oes gyda chi ddiddordeb yna ffoniwch Elaine (Rheolwraig), Kim (dirprwy) neu Jane (uwch ofalwraig) ar 01970 828657 am sgwrs anffurfiol. Croesewir pob ymholiad.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Enid ac Alun Jones, Llanarmon, Gwynedd (Gwyddfor gynt) ar farwolaeth tad Enid fis Tachwedd.

### Clwb Gwawr y Pennau

Aeth saith o aelodau Clwb Gwawr y Pennau i Henffordd ar ein trip blynyddol. Cafwyd dau ddiwrnod prysur iawn yn siopa, mwynhau prydau o fwyd Eidalaidd a Thai, ymweld â'r Gadeirlan a gweld y 'Mappa Mundi' enwog, edrych o gwmpas y ffair fwyd – 'Taste of Herefordshire' a gweld arddangosfa goginio gan y Baker Brothers. Bydd ein cyfarfod nesaf yn 'Blue Island Ceramics', Ynys-las ar y 3ydd o Ionawr.



Yng nghyfarfod mis Tachwedd croesawodd ein Llywydd, Mrs Mair Beech Hughes ein gwraig wadd yr Artist, Rhiannon Roberts o ardal Aberaeron. Cawsom amser hyfryd yn clywed am hanes Rhiannon o'r adeg y treuliodd yn y Coleg, lle bu'n astudio Seicoleg, i'r amser y penderfynodd fod yn Artist. Trwy ddefnyddio lliwiau llachar a'i dychymyg lliwgar, mae Rhiannon yn troi amryw o olygfeydd mewn darluniau chwareus sy'n llawn cymeriad hwyl. Mae Rhiannon yn awr yn artist llawn amser. Diolchodd Elizabeth Jones i Rhiannon am ddod atom am y noswaith. Hefyd enillodd Elizabeth Jones y raffl.

Llongyfarchwyd Mrs M Lewis am ddod yn Nain a chroesawyd Mrs C Jones yn ôl i'r gangen yn dilyn ei thriniaeth.

Diolchodd y Llywydd i bawb oedd wedi cyfrannu arian a chacennau i Gartref Tregerddan ac Afallen Deg a hefyd diolchwyd i Mrs B Jones am drefnu.

Yn dilyn gwahoddiad oddi wrth gangen Llanfarian mynychodd nifer o aelodau gyngerdd gan Barti Camddwr ar y 4 Rhagfyr, 2013, yn Neuadd Llanfarian. Roedd yn hyfryd gweld y neuadd yn llawn. Roedd yn noson bleserus dros ben ac mewn ysbryd y Nadolig fe wnaeth y gynulleidfa ganu carolau.

Diolchodd Mrs B Jones i gangen Llanfarian am y gwahoddiad ac am ddarparu'r bwffe ardderchog.

### Dewch i ddathlu!

Yn uchafbwynt i fis prysur o weithgareddau bydd Capel y Garn yn dathlu'r Nadolig mewn oedfa arbennig 'Naws y Nadolig' ar nos Sul 22 Tachwedd am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y gweinidog Y Parchg Wyn Rhys Morris gyda chymorth aelodau'r Capel ac eitemau amrywiol. Mae'r noson hon yn gyfle i'r ardal gyfan i ddod ynghyd i ddathlu gwir ystyr y Nadolig. Bydd cyfle ar y diwedd i gymdeithasu dros baned a mins pei.

Ar fore dydd Nadolig am 9 y bore, yn ôl yr arfer, cynhelir oedfa gymun deuluol o dan arweiniad y gweinidog ac ar nos Galan am 11,30 yr hwyr cynhelir Oedfa arbennig ar drothwy blwyddyn newydd. Mae'r drws ar agor a chroeso cynnes iawn i bawb i ymuno yn y dathlu.

Cyfarchion y Nadolig i bawb yn y fro – Ganwyd Iesu!

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Gwenllian Powell, Maes Ceiro, ar ddathlu ei phen blwydd yn 21 oed ar 16 Rhagfyr.

### Apêl Ynysoedd Pilipinas

Cynhaliwyd cyngerdd arbennig nos Sul 15 Rhagfyr yng Nghapel y Garn yng nghwmni Parti'r Greal, Cantre'r Gwaelod, Nest Jenkins, Ysgol Rhydypennau, Beca a Cadi, Thomas Mathias, Llŷr Eurig, Alun John, Geraint Thomas, Alan Wynne Jones, Trefor ac Eleri a Parti'r Penrhyn. Trefnwyd y noson gan Alan Wynne Jones a derbyniwyd rhoddion tuag at yr apêl – a'r Tincer yn mynd i'r wasg roedd dros £1,300 wedi ei dderbyn.



**Y Parch Wyn Morris yn torri'r gacen a baratowyd gan Gartref Tregerddan, dan oruchwyliaeth Llinos Dafis, Cadeirydd Pwyllgor y Chwiorydd**



**Meinir Lowry a Kathleen Lewis, yng ngofal y raffl**

## Nadolig

"Er cerdded a cherdded (drwy'r dref) ches i
ddim seren" – Dilys, ar ôl bod yn siopa.

Daeth Rhagfyr a'i gynnwrf i'r siopau eleni
Gan elwa ar breseb rhyfeddod y Geni.

Aeth aur, thys a myrr o ddwylo'r doethion
Dros gownter i dalu am ddiodydd poethion.

Ac onid peryglus yn ôl y sôn
Yw syllu ar seren drwy dwll yr osôn.

Mae rheolau iechyd a diogelwch
Yn clirio'r stabal yn wag, fel y gwelwch.

Ym Mradford a Hull cenir ceinciau'r gaea'
Rhag damsang ar draed plant Asia Leia'.

A yw'r seren blasting yn ffenest Gaerwen
Yn dwyn goleuni 'rhen Seren uwchben?

Na, na, os yw'r cyfrwng yn newid ei drem
Ni phylodd y neges o Fethlehem.

Yr un yw y Ceidwad a anwyd o Fair
A oleuodd y byd o'r gwely gwair,

Ond tybed nad ydyw y Seren eleni
Un kilowat cryfach oherwydd y Geni?

Vernon Jones

A feiddiwn, trwy'n holl gyfeddach – glywed,
trwy gloeon petheuach,
Mair â'i chân i'w baban bach,
hud y Gair, nid y geriach?

Anwen Pierce

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at Mair Stanleigh, Dolfawr, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bron-glais.

### Pen blwydd arbennig

Llongyfarchiadau I Barry Matthews Y Gamlyn, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

### Urdd y Benywod

Nos Lun 2il o Ragfyr bu nifer o'r aelodau yn brysur iawn yn gwneud torchau o flodau ar gyfer y Nadolig gyda chymorth Linda o Dregaron. Cafwyd noson hwylus iawn a llawer o hwyl gan fod Linda yn brofiadol iawn yn y maes. Bu yn rhedeg Siop Flodau yn Nhregaron ond mae ar hyn o bryd yn rheoli yr adran ardd yn yr Archfarchnad yn y dref ac yn cynnal gwersi yn y Ganolfan ym Mhenparcau. Diolchwyd iddi gan Gill Fathers a gwnaethpwyd y te gan Elizabeth Lewis ac aelodau y pwyllgor.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Eirlys Davies Caehaidd ac Ann Ellis Hywelfan, ar enedigaeth gor-ŵyr a gor-nai ac ŵyr bach arall i Margaret a Lewis Griffiths yn Rhydyfelin. Anrheg Nadolig hyfryd i'r teulu i gyd.

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013



# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 28 Tachwedd yn Neuadd Rhydypennau o dan gadeiryddiaeth yr is-gadeirydd y Cyng. Siân Jones. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau am absenoldeb. Adroddwyd bod y cwtero ar faes chwarae Tregerddan eto heb ei gyflawni, a bod Adran yr Ystadau yn y Brifysgol wedi gofyn am gopi o gytundeb Tirymynach, ac am gyfarfod â'r Cyngor, gan eu bod yn ôl pob tebyg wedi colli eu dogfennau hwy. Ni ddaw meinciau newydd tan y flwyddyn newydd, gan fod y cwmni wedi rhedeg allan o blastigion, a'u bod ar hyn o bryd yn brysur casglu plastig wast ar hyd y lle.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Sir am ei absenoldeb, ond anfonodd y Cynghorydd Hinge y sylwadau canlynol: Mae'r arwydd "dim llinellau gwyn ar y ffordd" wedi ei symud o ymyl Troed y Bryn, ac mae'r ffordd o'r Dolau tuag at Bont-goch wedi derbyn triniaeth i'r pyllau, ond does dim arwyddion fod y bont ger Bryngwyn Canol angen triniaeth. Mater i'r perchennog yw cyflwr y stand laeth ger Dolgau. Bydd diwrnod casglu sbwriel ardal Bryncastell, Clarach, Llangorwen yn newid o ddydd Mercher i ddydd Llun yn y flwyddyn newydd. Yr Eglwys yng Nghymru wedi tynnu'r cais am godi Ficerdy tu cefn i Bryn Teifi yn ôl. Bydd llinellau melyn yn ymddangos yn fuan wrth fynedfeydd ar ystâd Tregerddan. Ac mae'r bwyty sydd ynghlwm â siop y Cigydd ym Mhen-y-garn yn derbyn trwydded alcohol a cherddoriaeth, ond gyda chyfyngiadau.

Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio i law. Ond daeth cais oddi wrth bwyllgor Cymdeithas Maes Chwarae Rhydypennau yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor pan ddaw'r cynllun i godi 27 o dai yn Cae Rodyn i law. Maent yn gofidio bod ffin y tai yn rhy agos i'w hadeiladau hwy, a bod bloc o fflatiau bron a bod yn cyffwrdd â'r cwrt newydd (a elwir yn 3G), y cwrt ymarfer a agorwyd y llynedd ar gost o gwmpas £85,000. Mae'r Gymdeithas Maes Chwarae eisoes mewn trafodaethau gyda Thai Cantref a Chyngor Ceredigion. Penderfynwyd cefnogi'r sylwadau pan ddaw'r cynlluniau i law.

Ni fydd cyfarfod yn ystod mis Rhagfyr oherwydd prysurdeb y Nadolig, ond gelwir cyfarfod arbennig os cyfyd yr angen. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 30 Ionawr 2014.


**Gwesty'r Llew Du**
Black Lion Hotel
Beth am archebu eich Parti Dolig gyda ni!
Bwyd Da . . .
Cwmni Da . . .
Talybont, Aberystwyth
01970 832 555
gwestyllewdu.com

**Gwersi Gitâr**
Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk
Gitâr i'r Cristion
01974 299367
Gwasanaeth Symudol
Dysgwch yn eich cartref
CYSYLLTWCH!

**Cronfa Eleri**
Blwyddyn 2013 – dros £16,900 i'w rannu
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa





Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 11eg 2014
Amcanion Cronfa Eleri
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
Torri Porfa, Torri Gwrych a Strimmio, Disgownt i Bensiynwyr.
Ffôn 01974 261758
07792457816
(Nid oes yr un gwaith yn ormod)

**Nadolig Llawen i chi gyd!**

**Gwersi Piano i Blant**

ytincer@googlemail.com

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

**GWASANAETH CYFIEITHU**
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ





01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

## LLANDRE

### Cracer o noson

Llanwyd Bethlehem gydag ysbryd y Nadolig ar nos Wener 29 Tachwedd. Roedd hi'n "Cracer o Noson" a'r fro wedi dod ynghŷd i roi cychwyn ar ddathlu tymor y Nadolig eleni, a hynny mewn ffordd ychydig yn wahanol. Cyrhaeddodd Sion Corn yno yn llwythog ac roedd sawr y diodydd tymhorol a'r mins peis a cherddoriaeth soddgrwth Meinir Williams yn llenwi'r lle a'r naws yn gyfeillgar a chynnes. Roedd mynd ar y stondinau a bu cryn baratoi ymlaen llaw ar gyfer cystadlaethau jôc cracer, creu brawddeg a gorffen limerig . Gwahoddwyd Geraint Evans, Tal-y-bont i bwyso a mesur y cystadlaethau llenyddol. Derbyniwyd 57 limerig a 39 brawddeg a llwyth o jôcs a'r gwobrau i bob un oedd bocs o gracers. Yr enillwyr ar y noson yn adran y plant oedd Glain Llwyd, Rhys Tanat, Lleucu Sion a Nicky Garrod a'r oedolion buddugol oedd Llinos Evans, Rhian England, Lynwen Evans, Annette Williamson, Wynne Melville Jones a Gwenda James y nyrs. Trefnwyd y noson gan Fanc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn a bydd Ambiwlans Awyr Cymru yn elwa o'r noson. Roedd derbyniadau'r noson yn £500. ac mae'r Banc Bro am ddiolch i bawb a wnaeth gefnogi mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant mawr y noson.

### Gwellhad buan

Dymunwn yn dda i Mrs Bullimore, Genau'r Glyn, sydd wedi bod yn Ysbytai Treforus a Bron-glais yn ddiweddar.

Hefyd i Megan Davies, Tanyreithin, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobwen mis diwethaf.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwyneira Williams, Gwyndy a'r teulu ar golli ei brawd yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

### Pen blwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Ellis Davies, Afallen Deg - (Dol-y-Meillion) – sydd wedi dathlu pen blwydd arbennig.


### Prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Siân Harvey, Lôn Glanfred, ar basio ei phrawf gyrru yn ystod y mis diwethaf.

### Clwb Banc Bro Nadolig

Enillwyr mis Rhagfyr :

1. £60 – Marian Hughes, Maes y Garn
2. £40 – David James, Dolhuan
3. £20 – Greg a Lorraine Hill, Maeshenllan



OrielWynMel
Cyfres newydd o 10 print A5 @£55.
ANRHEGION DELFRYDOL
ar gael o:
JI-BINC, ABERAERON
RHIANNON, TREGARON
www.orielwynmel.co.uk



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ


## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 15 Hydref 2013, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Tegwyn Lewis, yn y gadair. Roedd Edwina Davies, Shân James, Dai Rees Morgan, Richard Owen, Gwenan Price, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Cynghorydd Sir, Dai Mason. Roedd ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan y cynghorwyr eraill a hefyd gan y Clerc a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd ei thad; cytunodd Eirian Reynolds i gymryd y cofnodion. Hefyd yn bresennol oedd y Cynghorydd John Adams-Lewis, Aberteifi, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion 2013-14, ac estynnwyd croeso arbennig iddo ef. Roedd yn bwriadu ymweld â phob cyngor cymuned yn y sir yn ystod blwyddyn ei gadeiryddiaeth.

Materion yn codi – Llwybr Seiclo: nid oedd cynllun pendant ar gyfer llwybr seiclo o gampws Gogerddan i gampws Pen-glais, ond y tebyg oedd y byddai'n dilyn llwybr y cebl optig rhwng y ddau le. Ffyrdd: roedd y Cyngor Sir wedi gosod pibau o dan y ffordd ym Mhen-bont ac yng Nghapel Madog, ac roedd cynllun i gryfhau'r ffordd tua Phen-cwm. Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir osod adlewyrchwyr ar y ffordd rhwng Bronheulwen a Phant-bach ar y ffordd i Ben-bont. Parcio ger Maes Seilo: roedd y Clerc wedi gofyn am gyfarfod safle ond ni chaed dyddiad hyd yma.

Gohebiaeth – llythyr gan Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion yn rhoi manylion ymgynghoriad ar dai fforddiadwy yn Rhydypennau nos Fawrth, 29 Hydref. Un Llais Cymru: cyfarfod Rhanbarth Ceredigion, nos Fercher 23 Hydref yn Aberaeron.

Ariannol – nododd y Clerc ei bod wedi derbyn tystysgrif yn dangos fod yr archwiliad blynyddol wedi'i gyflawni.

Cynllunio – dyfarniad: codi dau dwnnel plastig yng Ngogerddan, wedi ei ganiatáu; cais newydd: estyniad i 7 Nant Seilo, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad.

Cyfarfodydd a fynychwyd – adroddodd Eirian Reynolds am ei ymweliad â chyfarfod blynyddol Un Llais Cymru.

Materion eraill – Dosbarthodd Dai Mason holiadur ar gyfer cefnogi cais am wasanaeth trên bob awr rhwng Aberystwyth a'r Amwythig. Hefyd fe rannodd Dai Mason gopïau o'i ymateb ef i adroddiad gan y Cyngor Sir 'Tai i Bawb' a dywedodd y byddai'n croesawu adborth gan aelodau'r Cyngor. Adroddwyd fod Ysbyty Bron-glais yn bwriadu cau ward oherwydd prinder staff, a chytunwyd i ysgrifennu at awdurdodau'r ysbyty i gwyno am hyn. Roedd cwynion wedi eu derbyn am y ffordd roedd y Cyngor Sir yn torri rhai o'r cloddiau; yn aml roedd y torrwr yn osgoi rhannau gydag arwyddion ffyrdd a oedd yn golygu nad oedd yr arwyddion hynny i'w gweld. Hefyd gadewid llawer o frigach a deiliach ar y ffyrdd ar ôl torri; adroddwyd gan y ddau gynghorydd sir oedd yn bresennol fod problemau iechyd a diogelwch gyda gwaredu'r dail a'r gweddillion eraill. Gwnaed y trefniadau angenrheidiol ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio ar 10 Tachwedd.

Materion i'w codi – Roedd ceuffos y tu allan i dai'r Comisiwn Coedwigaeth yn gorlifo ar ôl glaw, a phenderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir lanhau'r geuffos. Adroddwyd fod car coch yn parcio wrth Tyddyn Seilo gyferbyn â Brondderw mewn man peryglus, a phenderfynwyd gofyn i'r heddlu edrych i mewn i'r mater.

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Rhedeg Marathon

Yn ddiweddar, bu Owen Jones, sy'n byw yn Brussels,mab Mrs Margaretta a'r diweddar John Jones, Tyllwyd, yn rhedeg y 'Paris Marathon' i 'Parkinson Cymru. Rhedodd Owen y ras mewn pedair awr, a rhoddwyd yr arian a gasglodd i Ysbyty Prifysgol Caerdydd, ar gyfer gwaith ymchwil. Pob hwyl a chofion cynnes iddo.

### Y Cyfryngau

Bu Dei Tomas (Radio Cymru) yn cyfweld â theulu Cwmwythig ar y rhaglen 'Ar y Tir' yn ddiweddar. Ymddangosodd erthygl amdanynt yn rhifyn mis diwethaf, wedi ennill 'Fferm Deuluol y Flwyddyn' 'Roedd yn gyfweliad diddorol dros ben.

Hefyd, tybed faint ohonoch sy'n gwylio yr opera sebon 'Pobl y Cwm'? Ymddangosodd mab yng nghyfraith Mrs Heulwen Lewis Deiniol, unwaith yn rhagor ar y sgrîn, ar ôl seibiant go hir. Mae Huw Euron yn actio Darren yn y stori, a oedd wedi dychwelyd o Ganada. Ond prin y gwelwn lawer ohono eto, am y tro, oherwydd fod Wil bach wedi penderfynu mynd yn ôl gyda ei dad i Ganada!

### Marwolaeth

Bu farw Mr Bill Vardy, 26 Stad Pen-llwyn, ym mis Tachwedd. 'Roedd yr angladd ar y 4ydd o Ragfyr yn yr Amlosgfa. Cydymdeimlwn yn fawr â'i wraig, y plant, a'r wyrion. Teithiodd ei ferch Susan o Awstralia i fod yn bresennol.

### Yn yr ysbyty

Yn sydyn cafodd Mr Sid Clench, Poplars, fynd i'r ysbyty am driniaeth feddygol. Ein dymuniad yw iddo wella yn llwyr wedi dod adref.

### Cyfansoddwr

Mae Mr Daniel Lawes, Maesymeillion, wedi bod yn cyfansoddi caneuon gwerin ers tua tair mlynedd bellach. Caneuon gwerin cyfoes am gariad, llên gwerin a hanes Cymru oedd ei eiriau.

Mae yn aelod o'r grwp "Brenig" – Triawd sy'n canu y caneuon gwerin a gyfansoddodd ei hun. Yn y grŵp mae ef yn ganwr ac yn chwarae y gitâr, Mandy o Chasetown, ger Cannock, hefyd yn canu a chwarae y gitâr a



mandolin a Mary o Letchworth yn enedigol, yn chwarae'r ffidil a viola.

Dewisiwyd yr enw Brenig, ar ôl yr afon fechan a lifai drwy fferm Daniel yn ystod ei blentyndod, yn Nhregaron. Mae ganddo lu o atgofion hyfryd ar fferm ei dad-cu a mam-gu. 'Roedd ei dad yn y fyddin a threuliodd Daniel amser yn yr Almaen a Swydd Dorset, cyn dychwelyd i fyw yng Nghymru. Yn tyfu lan yn y saithdegau, hoffai fiwsig roc ond dechreuodd gyfansoddi caneuon gwerin, fel y dywedwyd eisioes, yn 2010.

'Roedd ei brofiadau a storïau ei blentyndod, yn ei ysbrydoli i gyfansoddi caneuon yn cyfleu ei gariad tuag at cefn gwlad Cymru.

Mae Daniel a'i grŵp wedi diddanu cynulleidfaoedd mewn amryw o gyngherddau yng Ngheredigion, ac wedi rhyddhau CD yn ddiweddar, o'u caneuon gwerin.

Pob llwyddiant iddo eto, gyda dymuniadau gorau iddo ef, a Brenig.

Am fwy am Brenig, gweler http://www.brenigfolk.co.uk/the-group.html

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Oedfaon Madog**
2.00
**Rhagfyr**
15 Oedfa'r ofalaeth
22 Lyndon Lloyd
29 Andras Iago

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Llywelyn a Sioned Evans, Rhydyceir, Capel Madog, ar enedigaeth merch fach, Mabli Gwenllian ap Llywelyn, chwaer i Lleucu a Gruffudd ac wyres i Alwyn a Margaret Hughes, Gwarcwm Hen.

Hefyd i Trystan Davies, Llwyngwyddil, Cefn-llwyd ar ennill gwobr am garcas oen Beltex ac i Megan Evans, Llain y Felin, ar ennill yr ail wobr am ddylunio cracyr Nadolig. Bu'r ddau ohonynt yn cystadlu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

Plygain Morlan (7.30, 18 Rhagfyr)

Noson Gwis Morlan (7.30, 22 Ionawr -- cwis i gapeli ac eglwysi lleol. Croeso i unrhyw un anfon tîm (neu dimau) o 4.

Diwrnod Cofio'r Holocost (12.00-1.30, 27 Ionawr) – cyfle i ymdawelu a chofio

Etty (7.30, 30 Ionawr) – drama arbennig am Iddewes ifanc oedd yn byw yn Amsterdam yn ystod yr Ail Ryfel Byd

**Manylion llawn ar wefan Morlan:**
**www.morlan.org.uk**
**CROESO CYNNES I BAWB!**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

ytincer@googlemail.com

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

Siop
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Mis diwethaf, soniais yn y golofn hon am yr ergydion i Geredigion a ddaeth yn yr hydref gan gwmni bysiau Arriva a Bwrdd Iechyd Hywel Dda. O ran ein gwasanaethau bws, daeth newyddion da fod Llywodraeth Cymru am roi cyllid i gynorthwyo'r Cyngor Sir i ddarparu gwasanaethau newydd yn lle'r rhai a gollwyd. Mae manylion yn dal i'w cadarnhau, ond o leiaf y bydd gwasanaeth yn parhau, a gallwn weithio tuag at wella'r ddarpariaeth yn y tymor hir. Mae'r sefyllfa iechyd yn dal yn destun pryder, er i Fwrdd Hywel Dda feddalu ei agwedd rywfaint ar lawdriniaeth orthopaedig yn dilyn pwysau gwleidyddol. Bydd rhaid ymgyrchu'n gyson i sichrau fod ardaloedd fel Ceredigion yn flaenoriaeth, ac yn ddiweddar cynhaliais gyfarfod rhwng y Gweinidog Iechyd a nifer o feddygon uchel-eu-parch o'r canolbarth er mwyn amlinellu'r sialensau y mae'r gwasanaeth iechyd yn eu wynebu.

Roeddwn yn falch iawn o groesawu grwpiau eraill o Geredigion yn ddiweddar hefyd, sef ysgolion Penweddig a Llanbed. Roedd ymweliad Penweddig yn rhan o ddathliadau pen blwydd yr ysgol yn 40 oed, a disgyblion Bro Pedr yn cymryd rhan yn rhaglen deledu 'Hacio' ar S4C. Ond yn gynyddol mae'n braf gweld criwiau o wahanol fyfyrwyr ysgol yn ymweld â'r cynulliad i ddysgu am sut y mae democratiaeth Cymru yn gweithio, yn aml fel rhan o'u astudiaethau Bagloriaeth. Mae croeso mawr i grwpiau i ymweld – cysylltwch gyda'm swyddfa ar 01970 624 516 i drefnu.


Un agwedd sy'n rhoi balchder mawr i Gardi y dyddiau yma yw llwyddiant nifer o'n mentrau cydweithredol. Rwy'n aml yn credu nad oes unman yng Nghymru sy'n cymharu o ran gallu'r gymuned i gyd-dynnu i gyflawni rhywbeth gwerth-chweil. Mae Fforwm Penparcau yn mynd o nerth i nerth, er enghraifft, ac felly hefyd 'Bws y Bryniau' yn ardal Pontarfynach a dyffryn Rheidol. Gwych oedd gweld dau fenter cymunedol yn derbyn cydnabyddiaeth yn ddiweddar, gyda mudiad Whilen y Porthmyn yn Nhregaron yn ennill grant loteri, a 4CG yn Aberteifi cael ei ddisgrifio fel 'ysbrydoliaeth cenedlaethol' wrth ennill gwobr am waith adfywio trefol. Rhaid hefyd nodi perfformiad gwych un o fudiadau gwirfoddol mwyaf llwyddiannus Ceredigion – y Ffermwyr Ifanc – yn eisteddfod genedlaethol y mudiad yn Sir Fôn.

Felly llongyfarchiadau gwresog i bawb sy'n rhoi mor hael o'u hamser i gynnal gweithgareddau yn ein cymunedau, a ga i ddymuno Nadolig Llawen i chi i gyd.

# Taith gerdded y mis

## Goginan i Nant yr Arian

**Man dechrau**: Tu allan i gapel Dyffryn.
**Map**: OS Explorer 213. GR : 691814.
**Pellter**: 4 milltir. Peth dringo ar y rhan olaf.




O'r Capel ewch ymlaen i'r feidr a fydd yn eich arwain tuag at Blaendyffryn a chadw yn syth ymlaen heb droi i'r fferm nes cyrraedd iet. Cadwch ar ochr dde'r ffens a chadw golwg i'r chwith am safle rhod ddŵr. Trwy iet arall ac fe gyrhaeddwch ffordd coedwigaeth, cadw i'r chwith ac fe welwch lwybr a fydd yn eich arwain fyny i ffordd arall. Trowch i'r chwith eto am ryw gan llath a throi lan i lwybr ar eich dde. Bydd hwn yn eich arwain i fyny i'r ganolfan a byddwch yn gwerthfawrogi cwpaned yno. Yn ôl yr un ffordd.

**Rees Thomas**

ytincer@googlemail.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

**Nadolig Llawen i chi gyd!**



# Ysgol Penrhyn-coch

### Bags2Schools

Unwaith eto, cafwyd casgliad ar gyfer Bags2Schools. Erbyn hyn rydym yn casglu eitemau yn dymhorol. Diolch i bawb a gyfrannodd ar y tomen o fagiau. Disgwyliwn yn eiddgar am gyfanswm y dillad.

### Pêl-droed

Oherwydd tywydd anffafriol yn ystod y tymor, methwyd trefnu chwaraeon rhyng ysgol. O ganlyniad, penderfynwyd cynnal prynhawn o weithgareddau rhwng criw o ysgolion. Ar brynhawn braf, cyfarfu Ysgolion Rhydypennau, Craig yr Wylfa, Penrhyn-coch, Pen-llwyn a Chwmpadarn ar gae Piod ac Ysgol Rhydypennau yn Bow Street. Bu'r tîmau pêl-droed wrthi yn chwarae nifer o gêmau yn erbyn ei gilydd tra chafwyd cyfle i'r tîmau pêl rwyd chwarae yn yr ysgol. Cafwyd prynhawn hwyliog iawn yn mwynhau gyda phawb yn ennill a cholli gêmau ond yn cael hwyl a chymdeithasu. Diolch yn fawr i Ysgol Rhydypennau am y croeso a'r trefniadau a gobeithiwn drefnu prynhawn tebyg yn y dyfodol agos.

### Holiadur Chwaraeon

Bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wrthi yn llenwi Arolwg ar Chwaraeon Ysgol a gynhaliwyd gan Chwaraeon Cymru. O dderbyn copi o'r arolwg am Ysgol Penrhyn-coch, gwelwyd canlyniadau arbennig. Mae crynodeb o brif ganfyddiadau yr Arolwg ar wefan Chwaraeon Cymru http://www.sportwales.org.uk. Cafwyd anrheg Nadolig cynnar yn ystod mis Tachwedd pan dderbyniwyd siec am £250 gan Chwaraeon Cymru. Derbyniodd 5 ysgol sieciau tebyg ond dim ond Ysgol Penrhyn-coch o ardal Aberystwyth fu'n llwyddiannus. Defnyddir yr arian yn awr i ddatblygu Addysg Gorfforol a Chwaraeon ymhellach o fewn yr ysgol.

### Cinio'r Gymuned

Aeth criw o aelodau côr yr ysgol i lawr i ddiddanu aelodau cinio'r Gymuned. Tra yno, canwyd nifer o ffefrynnau Nadoligaidd ynghyd â chaneuon newydd o'n sioe Nadolig. Diolch i'r aelodau am eu cyfraniadau hael. Edrychwn ymlaen i gwrdd a'n gilydd unwaith yn rhagor yn y flwyddyn newydd.



### Llysgenhadon Ifanc

Erbyn hyn mae mudiad cyffrous sy'n sgubo drwy ysgolion uwchradd y wlad o'r enw Llysgenhadon Ifanc. Mae'r cysyniad yn un syml ond effeithiol iawn - dewisir dau ddisgybl i fod yn 'fodelau rôl' i'w cyfoedion gan gymryd gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd er mwyn annog pobl ifanc i fod yn weithgar. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych i'r Llysgenhadon Ifanc ddatblygu eu sgiliau arwain yn ogystal â chael siawns i fanteisio ar ddyfodol iach a gweithgar. Yn ystod y tymor, dechreuodd Sir Ceredigion recriwtio Llysgenhadon Efydd ar raddfa sirol, ac o ganlyniad apwyntiwyd dau o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yr ysgol i fod yn Llysgenhadon yr Ysgol. Y ddau a apwyntiwyd oedd Llion Edwards a Charlotte Richmond. Llongyfarchiadau i'r ddau. Maent eisoes wedi cychwyn ar eu rôl a mynychwyd cyfarfod gyda Llysgenhadon ysgolion eraill yn ddiweddar. Byddant hefyd yn rhoi diweddariad o unrhyw ddatblygiadau yn *y Tincer* yn ystod y flwyddyn.

### Ymweliadau Ysgolion Uwchradd

Croesawyd aelodau o dîmau rheoli Ysgolion Penweddig a Phen-glais yn ystod y mis diwethaf. Bu Pennaeth Ysgol Pen-glais, Mr Matthew Brown, yn sgwrsio gyda'r disgyblion ac yn ateb eu cwestiynau. Y noson ganlynol, daeth Dirprwy Bennaeth Ysgol Penweddig Mme Izri atom. Diolch iddynt am ddod atom.

### Coeden Nadolig

Fel rhan o ŵyl coed Eglwys Sant Ioan, bu'r disgyblion yn addurno eu coeden arbennig hwy. Crewyd coeden arbennig allan o bren wedi ei ailgylchu gan Geraint Jones. Daeth pob disgybl a bylb golau i mewn



i'w addurno. Gosodwyd y bylbiau hyn ar y goeden – 81 i gyd. Braf oedd gweld y goeden yn cynrychioli'r ysgol yn yr arddangosfa.

### Ffair Aeaf

Eleni eto bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn y Ffair Aeaf. Llwyddwyd i ennill nifer o wobrau:-

**Bisgedi wedi eu haddurno**

| | |
|---|---|
| 1af | Tomos James |
| 2il | Martha Rowlands |
| 3ydd | Annie-May James |

**Cracer Nadolig.**

| | |
|---|---|
| 1af | Molly Ralphs |
| 2il | Megan Evans |

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu. Da iawn chi. Mae gwaith y disgyblion i'w weld yng nghyntedd yr ysgol.

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
**01970 880627**

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Chwaraeon

Cafodd tîm pêl-droed Ysgol Craig yr Wylfa brynhawn o gystadlu brwd mewn cystadleuaeth 'round robin' a gynhaliwyd ar gaeau Ysgol Rhydypennau yn ddiweddar. Cafwyd gêmau yn erbyn Ysgolion Rhydypennau, Cwmpadarn, Pen-llwyn, Penrhyn-coch a Chomins-coch. Fel yr arfer, roedd safon y cystadlu'n uchel a chafwyd prynhawn llawn goliau, a chwys!!

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sam Davies, Blwyddyn 6 a Joshua Williamson Evans, Blwyddyn 5 am gael eu dewis i fod yn Llysgenhadon Efydd dros chwaraeon yn yr ysgol. Mae'r ddau bellach wedi derbyn hyfforddiant ar sut alle'n nhw fod yn hybu chwaraeon a chadw'n iach yn yr ysgol.

### Ymweliadau

Diolch i Gwyndaf Lloyd o Wasanaeth y Frigâd Dân a ddaeth i siarad â disgyblion yr ysgol am ddiogelwch rhag tân yn y cartref. Ar 6ed Rhagfyr, aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen am dro yng nghoedwig Gogerddan lle cwrddon nhw â dyn arbennig iawn. Yn annisgwyl, galwodd Siôn Corn i weld y disgyblion yn y goedwig gan adael anrheg fach i bawb. Diolch yn fawr Sion Corn! Ymunodd disgyblion dosbarth Mrs Edwards a phlant Cylch Meithrin y Borth ar 10fed Rhagfyr ar gyfer sesiwn stori yng Nghaffi Bolders, Y Borth. Yn dilyn y stori, mwynhaodd bawb sesiwn creadigol a drefnwyd gan Fudiad yr Ysgolion Meithrin. Braf iawn oedd cael ymweld â Chartref yr henoed, Hafan y Waun eto eleni er mwyn diddanu'r preswylwyr. Canodd y disgyblion nifer o garolau a pherfformiodd yr offerynwyr raglen amrywiol.







Gyda'r Nadolig ar y gorwel, fe aeth yr ysgol gyfan i neuadd Y Borth ar brynhawn Rhagfyr 13eg i berfformio eu sioe Nadolig, carolau ac offerynnau i Gymdeithas Henoed y pentref. Cafodd y disgyblion groeso cynnes a llond lle o fwyd a diod wedi'r perfformiad. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i'r gymdeithas am eu cefnogaeth barhaus eto eleni. Nadolig Llawen iawn i chi gyd!

ytincer@googlemail.com

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Gwaith Bricio
R+R
Adeiladau newydd, Estyniadau, Gwaith Carreg, Patios
Rhod: 07815121238
Rich: 07709770473

# Ysgol Pen-llwyn

Mae mis Tachwedd wedi bod yn fis prysur iawn yn Ysgol Pen-llwyn wrth ymgymryd a llawer o weithgareddau ynghyd â pharatoi ar gyfer ein sioe Nadolig.

### Pêl-droed

Buodd dosbarth Mr Jones yn chwarae pêl-droed yn ddiweddar yn Ysgol Rhydypennau. Aeth llawer o ysgolion lleol yno er mwyn cael ychydig o gemau gyfeillgar. Buom yn chwarae yn erbyn Rhydypennau a Chwmpadarn. Roedd ysgolion Craig yr Wylfa, y Borth a Phenrhyn-coch yn cymryd rhan hefyd. Cafodd pawb hwyl wrth chwarae gêmau yn erbyn yr amrywiol ysgolion.

### Llusernau

Fel rhan o ddathliadau Aberystwyth i droi ei golau Nadolig ymlaen, buodd plant Ysgol Pen-llwyn yn brysur gyda chefnogaeth rhai o'r rhieni yn creu llusernau ar gyfer gorymdaith lusernau yn Aberystwyth. Gwnaeth pob un disgybl lusern allan o helyg a phapur tusw, a braf oedd gweld bron pob disgybl wedi mynychu yr orymdaith. Roedd y disgyblion wedi mwynhau yr holl brofiad, yn enwedig wrth gwrdd â Sion Corn wrth ymyl y goeden fawr yn Aberystwyth.

### Plant Mewn Angen

Daeth Cyngor yr Ysgol lan â'r syniad o gefnogi Plant Mewn Angen eleni. Roeddent eisiau trefnu gweithgareddau er mwyn helpu eraill. Ar y dydd buodd y plant yn gwisgo eu dillad eu hunain, neu byjamas. Buon nhw' prynu bisgedi a chacennau ac hefyd yn gwerthu raffl a cheisio enwi tedi. Ar ddiwedd y dydd codwyd y swm anrhydeddus o £121. Da iawn chi blant a diolch i bawb am gefnogi.

### Llysgenhadon Efydd

Mae'r ysgol wedi penodi dau lysgenhadwr newydd sef Laura Jones Williams a Llŷr Evans. Disgyblion blwyddyn 6 a 5 yw Laura a Llŷr. Eu rôl nhw fel llysgenhadon fydd hyrwyddo a chynllunio gweithgareddau Ymarfer Corff yn yr ysgol. Bydd cyfrifoldeb arnyn nhw i drefnu gêmau amrywiol amser cinio, a sicrhau fod pawb yn cael cyfleoedd i chwarae. Mae'n rôl cyfrifol iawn, a buodd y ddau mewn sesiwn hyfforddi yn Ysgol Plas-crug yn ddiweddar i dderbyn hyfforddiant. Mae'r ddau yn barod ar gyfer yr her nawr!

### Pantolig

Ein sioe Nadolig eleni bydd Pantolig a bydd yn cael ei chynnal ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 17eg am 2:00y.h a 7:00y.h. Croeso i bawb. Byddwn hefyd yn cynnal Ffair Nadolig ar Nos Fercher 18fed o Ragfyr yn yr ysgol hefyd.

### Nadolig Llawen

Dymuna blant a staff yr ysgol Nadolig Llawen i holl ffrindiau'r ysgol ac i holl ddarllenwyr y Tincer.

### Priodas Dosbarth 1

Fel rhan o waith ar ddathliadau, cafodd dosbarth 1 yr ysgol briodas arbennig yn ddiweddar. Roedd y dosbarth wedi bod yn gwneud gwaith trawsgwricwlaidd ar briodas, sef cynllunio gwahoddiadau, trefnu blodau, ysgrifennu llythyron ac ati. Roedd holl ddisgyblion y dosbarth wedi ymgymryd â'r dasg efo brwdfrydedd, ac roedd pawb yn hapus o dderbyn swydd yn y seremoni a oedd yn amrywio o'r briodferch, priodfab, tynnwr lluniau, gwesteion, taflwr confetti ac hyd yn oed DJ. Diolch i eglwys Capel Bangor am gynnal ein priodas; diolch i Cathy yn yr ysgol am baratoi y wledd briodas a diolch i Heather Evans am arwain y disgyblion trwy'r seremoni.









SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# Ysgol Rhydypennau

### Plant mewn angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 16eg o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu stondinau a nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £415. Ardderchog!

### Animeiddio

Cafodd plant blwyddyn 3 i 6 sesiwn ddifyr yng nghwmni Jim Elliot, 'Digital Dropout Media' yn ddiweddar. Bu'r plant yn ymchwilio ac arbrofi gydag hen ffyrdd elfennol o greu lluniau symudol cyn mynd ati gyda chlai i greu ffilm syml go iawn. Cafwyd profiadau arbennig iawn.

### Talebau Morrissons

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n casglu talebau Morrisons dros y misoedd diwethaf. Ar ôl llwyddo i gyfri'r cyfan gwelwyd fod 10,971 o dalebau wedi eu casglu. 'Rydym nawr yn y broses o drafod a phenderfynu beth i brynu.

### Gala'r Urdd

Da iawn i bawb a fu'n nofio yng ngala'r Urdd ym mhwll nofio Plas-crug yn ddiweddar. Gala i holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd nofwyr safonol yn cystadlu. Llongyfarchiadau mawr i Owen Drakeley a ddaeth yn fuddugol yn y ras dull Broga i Fechgyn dan 12 oed. Mi fydd Owen nawr yn cynrychioli'r Sir yng ngala cenedlaethol yr Urdd lawr yn y Brifddinas toc ar ôl y flwyddyn newydd.

Da iawn hefyd i dîm cyfnewid merched blwyddyn 5 a 6; Sian Duckett, Ffion Duckett, Selina Williams a Leanna Williams gan eu bod hwy wedi llwyddo i ddod yn ail yn y ras gyfnewid cymysg a'r ras gyfnewid rhydd. Ardderchog.

### Diolch

Diolch yn fawr i Mr Howard Jones, athro ymgynghorol nam gweld a chlyw y sir, am ei ymweliad diweddar i'r ysgol er mwyn dysgu carolau'r Nadolig i'r plant trwy ddull arwyddiaith.

Diolch i Emyr Lewis cyn chwaraewr rygbi Cymru am gyflwyno capiau Criw Cŵl i blant blwyddyn 6 yn ddiweddar.

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr '*Y Tincer*;' oddi wrth blant a staff Ysgol Rhydypennau.



Bwrlwm prynu a gwerthu Plant Mewn Angen



Nofiwr Nerthol - Owen Drakeley



Arwyddiaeth dan ofal Mr Howard



Emyr Lewis gyda aelodau Criw Cŵl yr Ysgol.



Animeiddio



Talebau Morrissons

Am fwy o wybodaeth cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

# Tasg y Tincer







Rwy'n siŵr i mi weld rhai ohonoch yn ffair Aberystwyth? Ddaru chi fwynhau? Cefais amser wrth fy modd – ond mi fwytais ormod o gandi-fflos! Diolch i bawb am eu lluniau hyfryd o'r rocedi'n chwyrlïo a'r tân gwyllt yn tasgu. Dyma pwy fu'n lliwio: Kayla Alsopp, Penrhyn-coch; Miriam Llwyd, Pentan, Llandre; Jessica Mai Evans, Bow Street; Mackensie Byrne, y Borth. Roedd y gwaith yn arbennig, ond ti, **Miriam**, sy'n cael y wobr y tro hwn, am roi ambell seren yn y llun. Llongyfarchiadau!

Mae'n siŵr eich bod chi'n brysur iawn yn paratoi at y Nadolig, a bod y llythyr pwysig 'na i Begwn y Gogledd wedi'i anfon ers wythnosau! Un cymeriad sy'n cael ei gysylltu efo'r adeg hon o'r flwyddyn, wrth gwrs, yw **Sant Niclas**. Roedd Sant Niclas yn byw yn Lycia, Twrci, ganrifoedd maith yn ôl. Roedd Niclas yn ddyn caredig iawn, yn crwydro'r strydoedd min nos er mwyn rhannu ei arian â'r bobl dlawd. Byddai'n aml yn gwisgo clogyn coch, hir fel nad oedd neb yn ei adnabod. Mae sôn amdano'n taflu arian i lawr ambell simdde, lle byddai'n syrthio i mewn i'r sanau a fyddai'n sychu wrth y tân – a dyna gychwyn yr arferiad o adael hosan i dderbyn anrhegion. *Sinter Klaas* yw enw Sant Niclas yn yr Iseldireg, ac o hwn daw'r enw Santa Clos. Mae gennym ni ein 'Siôn Corn', sydd, fel Sant Niclas, yn rhoi anrhegion i lawr y corn simdde!

Beth am liwio'r llun o Siôn Corn? Dyma ddyn fydd yn brysur iawn cyn bo hir! Anfonwch eich lluniau ata'i erbyn Ionawr 8fed i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street. Ceredigion, SY24 5BP. Nadolig dedwydd i bob un ohonoch, a ta ta tan 2014!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**JONATHAN JAMES LEWIS**
Saer Coed
Adeiladydd
01970 880652
07773442260
Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth

**GOLCHDY LLANBADARN**
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES


ISSN 0963-925X

Rhif 364 | RHAGFYR 2013